Atodiad i:Prifysgol Abertawe – Polisi Cynaliadwyedd 2020

Mae Prifysgol Abertawe yn rhan o weithgarwch ymchwil arloesol sydd â goblygiadau dwys o ran deall yr amgylchedd lleol, cenedlaethol a byd-eang, a stiwardiaeth arno. Mae hyn yn cynnwys prosiectau carbon isel a fydd yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o sbarduno'r Deyrnas Unedig i ddefnyddio mwy o systemau ynni di-garbon, cyfreithiau amgylcheddol ac ynni, newid yn yr hinsawdd a rhewlifeg, bioamrywiaeth a chadwraeth, a dyframaethu cynaliadwy. Mae'r ymchwil hon yn gyfraniad o bwys y mae'r Brifysgol yn ei wneud i fynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd byd-eang. Gan fod gennym drosiant blynyddol o fwy na **£350 miliwn**, a chymuned o ryw 20,000 o fyfyrwyr a thros 3,000 o staff, rydym hefyd yn cydnabod yr angen am reoli ein gweithrediadau mewn modd cynaliadwy, a bod pob un ohonom yn gyfrifol am greu dyfodol mwy cynaliadwy. Rydym wedi ymrwymo i niwtraliaeth garbon yn ein hadeiladau erbyn 2040, gan gydnabod yr argyfwng hinsawdd rydym ni a chenedlaethau'r dyfodol yn ei wynebu. Bydd y Polisi Cynaliadwyedd yn cael ei adolygu'n flynyddol, bydd ar gael i'r cyhoedd a'r holl rai cyfrannog, a bydd yn cael ei gyfleu i holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol.

Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymo i'r canlynol:

1. Lleiafu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithrediadau'r Brifysgol.
2. Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai cychwynnol (yn cynnwys tanwydd ffosil, dŵr ac ynni).
3. Annog staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i deithio mewn modd cynaliadwy.
4. Arddangos dulliau cynaliadwy o ymdrin â'r amgylchedd adeiledig yn ein prosiectau adeiladu, adnewyddu a chynnal a chadw.
5. Hyrwyddo amrywiaeth biolegol ar safleoedd y mae'r Brifysgol yn eu rheoli neu'n berchen arnynt.
6. Lleihau cynhyrchu gwastraff a dargyfeirio gwastraff o gael ei anfon er mwyn adfer ynni, gan weld gwastraff fel adnodd, gan hybu atal gwastraff, gan flaenoriaethu ailddefnyddio a chan gynyddu ailgylchu.
7. Gwarchod yr amgylchedd drwy atal llygredd a thrwy ymrwymiadau penodol eraill sy'n berthnasol i gyd-destun y sefydliad.
8. Gwreiddio ymagweddau cynaliadwy a moesegol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau'r Brifysgol.
9. Hyrwyddo addysgu ar gyfer datblygu cynaliadwy a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig drwy gwricwla ffurfiol ac anffurfiol.
10. Cefnogi rhagor o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad cynaliadwy drwy gydol y Brifysgol a'r gymuned ehangach.
11. Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid eraill i wella cynaliadwyedd y Brifysgol.
12. Addasu i newid yn yr hinsawdd, gan sicrhau gwytnwch a dilyniant gweithrediadau a gwasanaethau.
13. Bodloni ein rhwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol.
14. Pennu, monitro ac adolygu amcanion perthnasol ac arddangos gwelliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol.

Yr Athro Paul Boyle, Gorffennaf 2020

Is-ganghellor Prifysgol Abertawe